

Trugaredd

Darlleniad: 1 Timotheus 1: 12-17

‘Trugaredd dod i mi,
Dduw, o’th ddaioni tyner.’

Dduw sanctaidd a phur, gogoneddus a pherffaith, cydnabyddwn di fel Duw cariad. Hanfod dy fod yw dy gariad, y cariad perffaith a chyflawn yna sy’n rhoi bod i’th drugaredd, y trugaredd naturiol yna sy’n cael ei ddangos i ni yn dy ddarpariaethau a’th roddion ar gyfer y ddynoliaeth. Nid Duw wyt ti sy’n dal yn ôl yn wyneb anffyddlondeb a pechod dyn, ond yn hytrach Duw yn ei drugaredd sy’n edrych y tu hwnt i’n cyflwr, ac yn rhoi i ni’r hyn oll sydd ei angen arnom i’n cynnal a’n cadw. Yng ngeiriau’r Salmydd:

‘Y mae’r ddaear, O! Arglwydd, yn llawn o’th ffyddlondeb.’

Y pethau hynny yr ydym yn eu cymryd mor ganiataol ar adegau, heb sylweddoli eu bod yn arwydd o’th ddaioni a’th ofal am bob un ohonom, ac yn tanlinellu dy realiti a’th waith yn ein plith.

Eto, cydnabyddwn fod dy drugaredd yn mynd tu hwnt i gynhالياeth bywyd, a’th gariad yn cael ei arddangos i ni, nid yn unig yn dy roddion, ond yn fwy o lawer ym mherson dy Fab, Iesu Grist, yn yr hwn y ceir trugaredd mwy gogoneddus o lawer. Y cariad yna sy’n arwydd o’th drugaredd tuag at gyflwr dyn. Gwelwn yn dy Fab dy ddarpariaeth ar ein cyfer, y ddarpariaeth yna sy’n mynd â ni o grafangau pechod ac i ganol y bywyd gogoneddus sy’n rhodd i ni. Derbyn ein diolch, felly, am iachawdwriaeth, yr iachawdwriaeth hon sy’n agor drws i drugareddau pellach, wrth i’th lân Ysbryd weithio yn ein calonnau, gan ddatguddio dy ewyllys a’th ffordd.

Yng nghysgod dy drugareddau ar ein cyfer, ac wrth i ni ym mherson dy Fab, drwy ffydd, agor ein llygaid i sylweddoli ac i gydnabod y ffynhonnell, sef tydi dy hun, cynorthwya ni, ar batrwm

bywyd Iesu, i ddangos trugaredd tuag at eraill. Boed inni wneud hynny trwy amynedd a maddeuant, trwy offrwm gofal a gwasanaeth, mewn gair, gweithred a meddwl, yn ein gweinidogaeth a'n cenhadaeth, fel y gwelo eraill trwom ni, a thrwy waith dy lân Ysbryd, y cariad tragwyddol yna sydd ohonot ti, ac a enynna eto gariad yng nghalon dyn tuag atat ti dy hun.

‘Dysg inni’r ffordd i weini’n llon
Er lleddfu angen byd o’r bron,
Rhoi gobaith gwir i’r gwan a’r prudd,
Ac archwaeth dwfn at faeth y Ffydd.’

Gofynnwn hyn i gyd yn enw dy annwyl Fab, Iesu Grist. Amen.

Eifion Arthur Roberts